# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

## CYMRAEG

## HAF 2015

© WJEC CBAC Cyf.

RHAGARWEINIAD

Y cynlluniau marcio a ganlyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan CBAC ar gyfer arholiad 2015 TGAU CYMRAEG. Penderfynwyd arnynt yn derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y cynadleddau yn fuan ar ôl sefyll y papurau fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y cynadleddau oedd sicrhau bod y cynlluniau marcio wedi'u dehongli a'u cymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynlluniau marcio hyn.

© WJEC CBAC Cyf.

## HAEN SYLFAENOL

### ADRAN A

**1.** (i) Un marc yr un hyd at 2 farc am nodi:
- 5 aur
- 11 arian [2]

(ii) Un marc am nodi:
- Gwobr David Dixon [1]

(iii) Un marc yr un hyd at ddau farc am nodi:
- Jazz Carlin
- Georgia Davies
- Natalie Powell [2]

**Cyfanswm marciau cwestiwn 1 = 5 marc**



© WJEC CBAC Cyf.

**2.** 1 marc am bob ffaith hyd at **18 marc**
Disgwylir ffeithiau o'r darnau yn unig, a disgwylir rhai ffeithiau o'r **tair adran** yn y cwestiwn, ond ni nodir marciau penodol i bob adran.
Rhaid cyfeirio at bob adran. Dim ond unwaith y dylid gwobrwyo ffeithiau y medrir eu clustnodi i fwy nag un adran.
Os atebir ar un adran yn unig – cyfanswm o 16 marc yn unig.
Os atebir ar ddwy adran yn unig – cyfanswm o 17 marc yn unig.

| | **Darn darllen 1: Gemau'r Gymanwlad** | **Darn darllen 2: Cymry ar y brig!** |
|---|---|---|
| **Llwyddiannau Tîm Cymru**<br><br>**1 marc**<br>**✓ ll** | • 233 aelod yn nhîm Cymru<br>• Aled Sion Davies yn gapten Tîm Cymru<br>• 36 o fedalau / 5 aur, 11 arian, 20 efydd<br>• Nifer fwyaf o fedalau yn hanes y Gemau<br>• Gemau Glasgow oedd y mwyaf llwyddiannus yn hanes athletwyr a chystadleuwyr tîm Cymru / y gemau gorau erioed / blwyddyn mwyaf llwyddiannus yn hanes athletwyr Cymru<br>• Geraint Thomas yn ennill medal aur am feicio.<br>• Francesca/Frankie Jones yn ennill medal aur am gymnasteg (rhythmig)<br>• Francesca Jones oedd athletwraig fwyaf llwyddiannus Cymru / 6 medal / un fedal aur a 5 arian<br>• Francesca Jones yn ennill Gwobr David Dixon<br>• Georgia Davies yn ennill medal aur am nofio<br>• Natalie Powell yn ennill medal aur am jiwdo<br>• Liz Carlin yn ennill medal aur am nofio<br>• Gwybodaeth am y medalau aur – o'r tabl os yw'n cyfeirio at y golofn olaf – marc yr un hyd at ddau<br>• Pump wedi ennill medal aur<br>• Francesca Jones yn cario baner y Ddraig Goch i'r Seremoni Agoriadol<br>• Geraint Thomas yn cario baner y Ddraig Goch i'r Seremoni Gloi | • Geraint Thomas yn ennill y ras o gwmpas strydoedd Glasgow (ennill medal aur)<br>• Buddugoliaeth syfrdanol Geraint Thomas (ond y dim iddo fethu...) / coroni blwyddyn Geraint Thomas ac ymdrech Cymru<br>• Aled Sion Davies yn ennill medalau arian yn Glasgow. |
| **Siom neu fethiant**<br><br>**1marc**<br>**✓s** | • 2 yn cael eu gwahardd am fethu prawf cyffuriau (Gareth Warburton a Rhys Williams)<br>• Non Stanford wedi'i hanafu<br>• Aled Sion Davies wedi ennill y fedal arian – wedi gobeithio ennill yr aur. | • Aled Sion Davies - siom o golli i'r Sais Dan Greaves yn Glasgow. |
| **Gobeithion ar gyfer y dyfodol**<br><br>**1 marc**<br>**✓ g** | • Gobeithio cynnig am gynnal Gemau'r Gymanwlad yng Nghymru, Caerdydd yn 2026 efallai.<br>• Ysbrydoli ieuenctid i fynd ati i wneud y campau.<br>• Dangos beth allwn ni ei wneud yma yng Nghymru | • Dim amheuaeth na fydd Geraint Thomas yn arwr i lawer o bobl ifanc Cymru o hyn ymlaen<br>• Aled Sion Davies – yn benderfynol o lwyddo ar ei domen ei hun (Abertawe); breuddwyd – cyrraedd Gemau Paralympaidd Rio de Janeiro |

Ymwybyddiaeth o ffurf **erthygl**: 2 farc

**Cyfanswm marciau cwestiwn 2: 20**



© WJEC CBAC Cyf.

**3.** Rhoddir **2 farc** am bob pwynt – **½ marc** am enwi nodwedd a **1½ marc** am effeithiolrwydd neu bwrpas gan gynnwys dyfynnu neu enghreifftio pwrpasol – hyd at **12.**
Enwi nodwedd (½ marc) + enghreifftio neu ddyfynnu (neu gyfeirio'n benodol at y nodwedd yn y darn darllen os nad oes modd dyfynnu) (½ marc) + rhesymu neu drafod effeithiolrwydd (1 marc).

| **Darn Darllen 1 –<br>Gemau'r Gymanwlad (g)** | **Darn Darllen 2 –<br>Cymry ar y brig! (c)** |
|---|---|
| **(3 x 2 = 6)**<br>**bwriad yr awdur**<br>• cyflwyno gwybodaeth am berfformiad Tîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad 2014 | **(3 x 2 = 6)**<br>**bwriad yr awdur**<br>• cyflwyno gwybodaeth am lwyddiant Geraint Thomas yng Ngemau'r Gymanwlad 2014<br>• cyflwyno gwybodaeth am Geraint Thomas ei hun a'i gampau<br>• cyflwyno gwybodaeth am lwyddiant Aled Sion Davies, yng ngemau Abertawe yn dilyn Gemau'r Gymanwlad<br>• cyflwyno gwybodaeth am Aled Sion Davies ei hun a'i gampau |
| **pwy yw'r darllenwyr**<br>• darllenwyr Golwg + gwefan wicipedia<br>• unrhyw un sydd â diddordeb yn y Gemau | **pwy yw'r darllenwyr**<br>• darllenwyr y Cymro + Golwg + gwefan Wicipedia<br>• unrhyw un sydd â diddordeb yn y Gemau/ neu yn Geraint Thomas neu Aled Sion Davies<br>• pobl sy'n mwynhau chwaraeon |
| **y math o iaith**<br>• ffurfiol, safonol, ffeithiol<br>• iaith lafar safonol yn y dyfyniad (Sarah Powell) | **y math o iaith**<br>• ffurfiol, safonol, ffeithiol<br>• llafar/tafodieithol (Aled Sion Davies) |
| **nodweddion arddull**<br>• **ffurf:** rhan o erthygl yn y cylchgrawn Golwg (nodweddion erthygl) + tudalen wybodaeth safle Wicipedia (nodweddion tudalen wybodaeth Wicipedia e.e. lliw, tanlinellu, rhifau ...)<br>• **berfau amser gorffennol** e.e. cipiodd, enillodd, llwyddodd<br>• **cwestiwn (rhethregol)** e.e. Caerdydd 2026?<br>• **dyfynnu**: geiriau Sarah Powell<br>• **mynegi barn/safbwynt a rhesymu** e.e. mi fyddai'n wych petai Cymru yn cynnal Gemau'r Gymanwlad ......<br>• **nodi blynyddoedd** e.e. Glasgow 2014, Caerdydd 2026<br>• **enwi llefydd** e.e. Caerdydd, Glasgow, Cymru, Caernarfon, Abertawe<br>• **teitlau** e.e. Gemau'r Gymanwlad, Gwobr David Dixon, Capten Cymru, Llywodraeth Cymru, prif weithredwr Chwaraeon Cymru<br>• **enwau pobl** e.e. Geraint Thomas, Francesca Jones, Aled Sion Davies, Non Standford, Gareth Warburton, Rhys Williams | **nodweddion arddull**<br>• **ffurf:** rhan o erthygl yn y Y Cymro (nodweddion erthygl) + tudalen wybodaeth safle Wicipedia (nodweddion tudalen wybodaeth Wicipedia e.e. lliw, tanlinellu, rhifau ...)<br>• **berfau amser gorffennol** e.e. tyfodd<br>• **berfau amhersonol** e.e. coronwyd<br>• **dyfynnu**: geiriau Aled Sion Davies<br>• **mynegi barn/safbwynt a rhesymu** e.e. does dim amheuaeth na fydd ......<br>• **nodi blynyddoedd** e.e. Glasgow 2014, Gemau Olympaidd Beijing 2008, dyddiad geni 1986, Gemau Olympaidd 2008 a 2012, dyddiad yr erthygl – 8 Awst<br>• **enwi llefydd** e.e. Caerdydd, Glasgow, Beijing, Llundain, Yr Eglwys Newydd, Cymru, Abertawe, Lyon, Pen-y-bont ar Ogwr, Rio...<br>• **teitlau** e.e. Gemau'r Gymanwlad, Y Cymro, enwau'r gwahanol gampau, MBE, Team Sky, Ras Ymlid, Trac y Byd, enwau ar grys Geraint Thomas, Sais |



© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| • **niferoedd / ystadegau** e.e. 36 o fedalau (5,11,20), 100 milltir, 25 oed<br>• **rhestru** e.e. rhestr o fedalau/enillwyr a'u campau yn y tabl(grid)<br>• **dywediadau/idiomau** e.e. boddi wrth y lan<br>• **ansoddeiriau** i greu effaith: e.e. gorau, gwych, llwyddiannus<br>• **amodol/ dymuniad** e.e. mi fyddai'n wych petai...<br>• **dyddiau** e.e. Sul<br>• **ailadrodd** nifer y medalau<br><br>**y cyflwyniad**<br>• **dwy golofn** (wedi eu rhannu'n flychau)<br>• **logo** Gemau'r Gymanwlad ar y brig<br>• **baner** Cymru – y Ddraig Goch ar y gwaelod<br>• **teitl y darn darllen** – Gemau'r Gymanwlad<br>• **teitl yr erthygl (o Golwg) –** Y Gemau gorau erioed<br>• **teitl –** chwaraeon + Golwg (y cylchgrawn) ar frig y dudalen<br>• **isbenawdau (**Wicipedia) **–** Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad 2014, Llwyddiant y Cymry yn Glasgow, Caerdydd 2026<br>• **dyddiadau –** Yr erthygl **–** Awst 7, 2014, Dyddiad y Gemau **–** rhwng 23 Gorffennaf a 3 Awst 2014.<br>• **cefndir lliw** coch ar frig y dudalen fel cefndir i enw'r cylchgrawn, cyfrol a rhif, dyddiad a chwaraeon (hefyd ar y gwaelod)<br>• **cefndir lliw** gwyrdd i'r grid o Wicipedia + **cefndir** melyn i'r medalau aur<br>• **cefndir** llwyd i'r blwch 'SIOM' gydag **amlinell** goch<br>• **lluniau –** 6 llun lliw o'r athletwyr / enwi athletwr / llun o'r ddraig goch<br>• **blychau** – nifer o flychau eraill gydag amlinell (du, coch, gwyrdd)<br>• **print trwm / trwchus** – yn y teitlau, enwau<br>• **prif lythrennau** + trwm + lliw coch – y teitl yn y blwch ar y gwaelod – CAERDYDD 2026?<br>**print gwyn** – chwaraeon ar y brig<br>• **defnydd o liw** – lluniau, cefndir, print, logo, amlinell<br>• **tabl / grid gwybodaeth / siart**<br>• **pwyntiau bwled**<br>• **dolen / linc** | • **enwau pobl** e.e. Geraint Thomas, Aled Sion Davies, llysenwau, Dan Greaves<br>• **niferoedd / ystadegau** e.e. 6 cilomedr, gwybodaeth am daldra a phwysau (yn y grid), bedair blynedd<br>• **rhestru** e.e. Rhestr o'r Prif gampau<br>• **dywediadau/idiomau** e.e. ond y dim, ar ei domen ei hun<br>• **ansoddeiriau** i greu effaith: e.e. syfrdanol, cyffredin, ifanc, Cymreig, arbennig<br><br>**y cyflwyniad**<br>• **dwy golofn** (wedi eu rhannu'n flychau)<br>• **baner** Cymru + y Deyrnas Unedig<br>• **teitl yr erthygl –** Ar ei feic; Y pencampwriaethau gorau erioed<br>• **teitl –** Y Cymro a'r dyddiad ar y brig; Golwg a'r dyddiad<br>• **dyddiadau –** yr erthygl – 8 Awst, blynyddoedd y gemau, dyddiad yr erthygl yn Golwg Awst 28, 2014<br>• **cefndir lliw** glas i'r darn o erthygl<br>• **cefndir lliw** gwyrdd (gwybodaeth tîm – yn y grid) cefndir melyn i enwau Geraint Thomas ac Aled Sion Davies (yn y siâp sêr)<br>• **lluniau –** 2 lun o Geraint Thomas, llun o'r baneri; 2 lun o Aled Sion Davies<br>• **blychau**<br>• **print trwm / trwchus** – yn y teitlau, enw Aled Sion Davies; yn y grid<br>• **prif lythrennau –** MBE<br>• **defnydd o liw** – lluniau, cefndir, print, logo, amlinell<br>• **tabl / grid gwybodaeth / siart**<br>• **dolen / linc** |



© WJEC CBAC Cyf.

Dyfernir **3 marc** am ansawdd cyffredinol y drafodaeth yn cynnwys mynegi barn a thrafod y ddau ddarn ar y cyd (e.e. rhesymau pam mae un o'r darnau/ ffurfiau yn fwy effeithiol na'r llall).

**Ansawdd y drafodaeth (mynegi barn a thrafod y ddau ddarn ar y cyd)**

**3 marc**– mynegi barn a chyd-drafod yn dda
**2 marc** – mynegi barn a chyd-drafod yn eithaf da
**1 marc** – mynegi barn a chyd-drafod yn fras

**Cyfanswm marciau cwestiwn 3 = 15 marc**

- **½ marc am enwi nodwedd. Rhaid dyfynnu neu enghreifftio'n glir er mwyn ennill y marc enwi nodwedd.**
- **O fewn 1 ½ marc (½ marc am ddyfynnu/ enghreifftio ac yna hyd at 1 marc am drafod effeithiolrwydd neu bwrpas).**
- **Wrth sôn am fwriad yr awdur/ pwy yw'r darllenwyr, mae'n anodd enghreifftio felly rhoddir hyd at 1 ½ marc am esbonio'r pwrpas.**



© WJEC CBAC Cyf.

**Iaith a Mynegiant Adran A = 10 marc**
**Marciau yn ôl y disgrifiadau canlynol.**

| **IAITH A MYNEGIANT**<br>**10** | **Marc**<br>**10** |
|---|---|
| • adnoddau iaith pur dda<br>• arddangos gafael dda ar gystrawen<br>• arddangos gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael dda ar eirfa<br>• adnabyddiaeth eithaf da o ffurf | 9-10 |
| • adnoddau iaith lled foddhaol<br>• gafael weddol dda ar gystrawen<br>• gafael weddol dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael eithaf da ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf | 7-8 |
| • peth gafael ar gystrawen<br>• dangos y gallu i sillafu, treiglo, atalnodi a pharagraffu<br>• defnyddio rhai terfyniadau berfau'n gywir<br>• arddangos peth gafael ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth fras o ffurf | 6 |
| • defnyddio geirfa a chystrawennau elfennol<br>• ymgais i baragraffu ac atalnodi<br>• sillafu'r rhan fwyaf o eiriau syml yn gywir<br>• terfyniadau rhai berfau'n gywir ar adegau<br>• dangos ymwybyddiaeth o ffurf | 4-5 |
| • ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol<br>• atalnodi'n gywir ar adegau<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio terfyniadau rhai berfau syml yn gywir<br>• peth ymwybyddiaeth o ffurf | 2-3 |
| • adnoddau iaith cyfyngedig<br>• ychydig iawn o atalnodi cywir<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio rhai berfau syml<br>• rhai elfennau o'r ffurf | 0-1 |

**Cyfanswm marciau Adran A = 50 (cynnwys: 40 + iaith a Mynegiant: 10)**



© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B**

**4.** Gweler y disgrifiadau canlynol ar gyfer asesu Cynnwys ac Iaith a Mynegiant.
Ffurf cwbl anghywir: haneru marc Iaith a Mynegiant
Camddehongli'r testun: haneru marc y cynnwys
½ i ¾ tudalen - ddim yn waith cyflawn o ran y cynnwys (gweler disgrifiadau isod).

***Marciau yn ôl y disgrifiadau canlynol***

| **Cyfanswm marciau 40** | **Marc 20** | **CREADIGOL 20** | **FFEITHIOL 20** | **IAITH A MYNEGIANT 20** |
|---|---|---|---|---|
| 36-40 | 18-20 | • gwaith eithaf diddorol<br>• ymwybyddiaeth o rai elfennau i greu effaith<br>• gwaith pur drefnus | • cyflwyno gwybodaeth berthnasol a digonol<br>• gwaith pur drefnus<br>• cyflwyno'r wybodaeth yn eglur ac addas i'r pwrpas | • adnoddau iaith pur dda<br>• arddangos gafael dda ar gystrawen<br>• arddangos gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael dda ar eirfa<br>• adnabyddiaeth eithaf da o ffurf |
| 28-35 | 14 -17 | • gwaith ag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• peth ymdrech i ddefnyddio arddull ddiddorol<br>• ymdrech at fod yn drefnus | • cyflwyno ffeithiau digonol<br>• ymdrech at fod yn drefnus<br>• ymdrech i gyflwyno'n eglur | • adnoddau iaith lled foddhaol<br>• gafael weddol dda ar gystrawen<br>• gafael weddol dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael eithaf da ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf |



© WJEC CBAC Cyf.

| Cyfanswm marciau 40 | Marc 20 | CREADIGOL 20 | FFEITHIOL 20 | IAITH A MYNEGIANT 20 |
|---|---|---|---|---|
| 22-27 | 11-13 | • ymdrech at waith diddorol<br>• ymdrech at waith cyflawn | • cyflwyno peth gwybodaeth<br>• ymgais at waith cyflawn ac i gyflwyno'n eglur | • peth gafael ar gystrawen<br>• dangos y gallu i sillafu, treiglo, atalnodi a pharagraffu<br>• defnyddio rhai terfyniadau berfau'n gywir<br>• arddangos peth gafael ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth fras o ffurf |
| 14-21 | 7-10 | • ymdrech i gyflwyno manylion<br>• ymgais at drefn a dilyniant | • trafod y testun yn fyr ac yn syml<br>• ymgais at drefn a dilyniant | • defnyddio geirfa a chystrawennau elfennol<br>• ymgais i baragraffu ac atalnodi<br>• sillafu'r rhan fwyaf o eiriau syml yn gywir<br>• terfyniadau rhai berfau'n gywir ar adegau<br>• dangos ymwybyddiaeth o ffurf |
| 8-13 | 4-6 | • peth ymgais i gyflwyno manylion<br>• peth dilyniant | • trafod y testun yn fyr<br>• peth dilyniant | • ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol<br>• atalnodi'n gywir ar adegau<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio terfyniadau rhai berfau syml yn gywir<br>• peth ymwybyddiaeth o ffurf |
| 0-7 | 0-3 | • cynnwys yn denau iawn | • cynnwys yn denau iawn | • adnoddau iaith cyfyngedig<br>• ychydig iawn o atalnodi cywir<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio rhai berfau syml<br>• rhai elfennau o'r ffurf |

**Cyfanswm marciau cwestiwn 4 = 40 marc (Cynnwys: 20 + Iaith: 20)**



© WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN C

**5.** **Defnyddio iaith**
Rhoddir **1** marc am bob cywiriad – ½ **marc** am adnabod gwall a ½ **marc** am gywiro'r gwall.

**Sir Gar > Sir Gâr** – wedi ei gywiro fel enghraifft yn unig.

| **Eisteddfod Sir Gâr** |
|---|
| Yr Eisteddfod Genedlaethol yw gŵyl bwysicaf Cymru. |
| Mae plant a phobl o bob oed yn cystadlu neu'n cymryd rhan ynddi. |
| Daw llawer o bobl i'r Eisteddfod Genedlaethol i grwydro o gwmpas y maes ac i fwynhau eu hunain. |
| Bu Eisteddfod Genedlaethol Llanelli 2014 yn llwyddiannus iawn. |
| Cofiwch y byddwch chi'n cael croeso cynnes ym Meifod yn Awst 2015. |

**Gwallau:**

1. bwysicach > bwysicaf / bwysica' (terfyniad yr ansoddair)
2. Cymry > Cymru ( y/u – y bobl a'r wlad)
3. bobl > phobl ( treiglad llaes)
4. gystadlu > cystadlu ( treiglad diangen)
5. ir > i'r ( collnod)
6. ei > eu ( unigol / lluosog)
7. llanelli > Llanelli ( prif lythyren)
8. llwyddianus > llwyddiannus ( dyblu n)
9. bydd chi > byddwch chi / byddwch (ffurf person anghywir y ferf)
10. 2015 > 2015./ ! (atalnod llawn / ebychnod)

**Cyfanswm marciau cwestiwn 5 = 10**



© WJEC CBAC Cyf.

## HAEN UWCH

### ADRAN A

**1.** (i) Un marc yr un hyd at 2 farc am nodi:
- 5 aur
- 11 arian [2]

(ii) Un marc am nodi:
- Gwobr David Dixon [1]

(iii) Un marc yr un hyd at ddau farc am nodi:
- Gareth Warburton
- Rhys Williams [2]

**Cyfanswm marciau cwestiwn 1 = 5 marc**



© WJEC CBAC Cyf.

**2.** 1 marc am bob ffaith hyd at **13 marc**

Disgwylir ffeithiau o'r darnau yn unig, a disgwylir rhai ffeithiau o'r **tair adran** yn y cwestiwn, ond ni nodir marciau penodol i bob adran.
Rhaid cyfeirio at bob adran. Dim ond unwaith y dylid gwobrwyo ffeithiau y medrir eu clustnodi i fwy nag un adran.
Os atebir ar un adran yn unig – cyfanswm o 11 marc yn unig.
Os atebir ar ddwy adran yn unig – cyfanswm o 12 marc yn unig.

| | **Darn darllen 1: Gemau'r Gymanwlad** | **Darn darllen 2: Mwynhau'r Gemau...** |
|---|---|---|
| **Llwyddiannau Tîm Cymru**<br><br>**1 marc**<br>**✓ ll** | • 233 aelod yn nhîm Cymru<br>• 36 o fedalau / 5 aur, 11 arian, 20 efydd<br>• Gemau Glasgow oedd y mwyaf llwyddiannus yn hanes athletwyr a chystadleuwyr tîm Cymru / y gemau gorau erioed / blwyddyn fwyaf llwyddiannus yn hanes athletwyr Cymru<br>• Geraint Thomas yn ennill medal aur am feicio<br>• Francesca Jones yn ennill medal aur am gymnasteg rhythmig/gyda'r rhuban<br>• Francesca Jones yn ennill Gwobr David Dixon<br>• Sally Peake yn ail/yn ennill medal arian ar y naid polyn.<br>• enwi enillwyr y medalau – o'r tabl – o'r tair colofn hyd at ddau - un marc yr un | • mwy o fedalau nag erioed o'r blaen<br>• enwi'r campau / medalau<br>• Daniel Jervis – ras nofio 1500 – efydd |
| **Siom neu fethiant**<br><br>**1marc**<br>**✓s** | • 2 yn cael eu gwahardd / am fethu prawf cyffuriau (Gareth Warburton a Rhys Williams)<br>• Non Stanford wedi anafu – (teimlo ei bod yn gadael ei ffrindiau i lawr)<br>• siom Aled Sion Davies wedi ennill y fedal arian – (wedi gobeithio ennill yr aur) | • heb gael clywed ein hanthem<br>• peidio â gadael i ni weld Georgia Davies yn gwrando ar 'Hen Wlad fy Nhadau' wedi iddi ennill y fedal aur<br>• darlledwyr wedi penderfynu bod gwylio Adam Gemili o Loegr yn derbyn medal arian yn bwysicach!<br>• dim rhaglen benodol am Dîm Cymru ar S4C (a chymaint o'r cystadleuwyr yn siarad Cymraeg)<br>• tueddiad y BBC i ganolbwyntio cymaint ar 'Team England' yn corddi BG / llwyddiannau Tîm Cymru dan gysgod Tîm Lloegr<br>• Embaras cyffuriau ar y dechrau<br>• Siom Elinor Barker heb ennill yr aur |
| **Gobeithion ar gyfer y dyfodol**<br><br>**1 marc**<br>**✓ g** | • Non Stanford yn dweud bod rhaid iddi ganolbwyntio ar ddod yn well<br>• Aled Sion Davies – edrych ar yr ochr gadarnhaol – ei fod dal yn ifanc<br>• gobeithio cynnig am gynnal Gemau'r Gymanwlad yng Nghymru, Caerdydd yn 2026 efallai<br>• ysbrydoli ieuenctid i fynd ati i wneud y campau<br>• ffordd o danio'r genhedlaeth nesa' o gystadleuwyr | |

Ymwybyddiaeth o ffurf **erthygl**: 2 farc

**Cyfanswm marciau cwestiwn 2: 15**



© WJEC CBAC Cyf.

**4.** Rhoddir **2 farc** am bob pwynt – **½ marc** am enwi nodwedd a **1½ marc** am effeithiolrwydd neu bwrpas gan gynnwys dyfynnu neu enghreifftio pwrpasol – hyd at **16**.

Enwi nodwedd (½ marc) + enghreifftio neu ddyfynnu (neu gyfeirio'n benodol at y nodwedd yn y darn darllen os nad oes modd dyfynnu) (½ marc) + rhesymu neu drafod effeithiolrwydd (1 marc).

| **Darn Darllen 1 – Gemau'r Gymanwlad** | **Darn Darllen 2 – Mwynhau'r Gemau...** |
|---|---|
| **(4 x 2 = 8)**<br>**bwriad yr awdur**<br>• cyflwyno gwybodaeth / adrodd hanes / sôn am berfformiad Tîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad 2014<br><br>**pwy yw'r darllenwyr**<br>• darllenwyr Golwg + gwefan Wicipedia<br>• unrhyw un sydd â diddordeb yn y Gemau / chwaraeon<br><br>**y math o iaith**<br>• ffurfiol, safonol, ffeithiol<br>• iaith lafar safonol yn y dyfyniadau;<br>• sathredig – gadael fy nheulu i lawr<br><br>**nodweddion arddull**<br>• **ffurf:** rhan o erthygl/adroddiad yn y cylchgrawn Golwg (nodweddion erthygl/adroddiad) /tudalen wybodaeth safle Wicipedia (nodweddion tudalen wybodaeth Wicipedia e.e. lliw, tanlinellu)<br>• **berfau amser gorffennol** e.e. cipiodd, cafodd, enillodd, derbyniodd<br><br>• **berfau dyfodol** e.e. byddai<br>• **cwestiwn (rhethregol)** e.e. Caerdydd 2026?<br><br>• **dyfynnu**: geiriau Non Standford, Aled Sion Davies, Sarah Powell<br>• **mynegi barn/safbwynt a rhesymu** e.e. mi fyddai'n wych petai Cymru yn cynnal Gemau'r Gymanwlad ...... | **(4 x 2 = 8)**<br>**bwriad yr awdur**<br>• mynegi ei barn am y Gemau / llwyddiannau a methiannau'r tîm<br><br>**pwy yw'r darllenwyr**<br>• darllenwyr y Daily Post / Yr Herald Gymraeg<br>• diddordeb mewn chwaraeon neu gemau<br><br>**y math o iaith**<br>• anffurfiol (tafodieithol ar adegau) / iaith perswâd<br><br>**nodweddion arddull**<br>• **ffurf:** erthygl papur newydd (nodweddion erthygl) – gwybodaeth + barn bersonol yr awdures (coegni)<br><br>• **berfau amser gorffennol** e.e. syfrdanodd<br>• **berfau presennol/berfenwau** e.e. profi, yn codi, i roi cynnig, ennill, corddi<br>• **berfau dyfodol** e.e. mi geith, os daw<br>• **cwestiwn (rhethregol)** e.e. biti na fuasem wedi cael clywed ein hanthem, yn de? ..mae 'na sôn am 2026 yn does? A phwy all anghofio....?<br>• **dyfynnu:** 'Y pechod mwya' oedd peidio...'<br>• **mynegi barn/safbwynt a rhesymu** e.e. dw i wedi mwynhau..., biti na fuasem wedi cael clywed ein hanthem, yn de? mae'n hurt...Mi geith o fedal aur cyn bo hir, yn bendant! (erthygl i gyd yn cyfleu barn bersonol yr awdures)<br>• **coegni / hiwmor** e.e. mae'n hurt ...a chymaint o ddarlledwyr Cymraeg, mae tueddiad y BBC..... yn corddi rhywun yn arw, penderfynu bod gwylio Adam Gemili (o Loegr) .....yn bwysicach, Iawn, dwi'n gwybod ... yn fwy 'glam' .... ond mae 'na wahaniaeth ...., y pechod mwya oedd peidio â gadael i ni weld..., Ond pobl fel yna...<br>• **perswadiol** e.e. dw i'n gobeithio bod miloedd ... yn codi oddi ar eu penolau i roi cynnig ar rai o'r campau |



© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| • **nodi blynyddoedd** e.e. Glasgow 2014, Caerdydd 2026<br>• **enwi llefydd** e.e. Caerdydd, Glasgow, Cymru, Caernarfon, Abertawe<br><br>• **teitlau** e.e. Gemau'r Gymanwlad, Gwobr David Dixon, Capten Cymru, Llywodraeth Cymru, prif weithredwr Chwaraeon Cymru<br>• **enwau pobl** e.e. Geraint Thomas, Frankie Jones, Sally Peake, Aled Sion Davies, Non Standford, Gareth Warburton, Rhys Williams (eraill yn y grid)<br>• **niferoedd / ystadegau** e.e. 36 o fedalau (5,11,20), 100 milltir, 25 oed<br>• **rhestru** e.e. rhestr o fedalau/enillwyr a'u campau yn y tabl (grid)<br>• **dywediadau/idiomau** e.e. boddi wrth y lan, dan gwmwl, ffordd o danio'r genhedlaeth...<br><br>• **ansoddeiriau** i greu effaith: e.e. gorau, gwych, llwyddiannus<br>• **amodol/ dymuniad** e.e. mi fyddai'n wych petai...<br>• **ebychnod** e.e. dipyn o gyflawniad!<br><br><br>• **dyddiau** e.e. Sul, Sadwrn<br><br>**y cyflwyniad**<br>• **dwy golofn** i ddechrau, yna dau flwch ar draws y dudalen<br>• **logo** Gemau'r Gymanwlad ar y brig<br>• **baner Cymru** – y Ddraig Goch<br>• **teitl yr erthygl –** Y Gemau gorau erioed<br>• **teitl –** chwaraeon + golwg (y cylchgrawn) ar frig y dudalen<br>• **isbenawdau –** Llwyddiant .... a siom, Caerdydd 2026<br>• **dyddiad yr erthygl –** Awst 7, 2014<br>• **cefndir coch** ar frig y dudalen fel cefndir i enw'r cylchgrawn, cyfrol a rhif, dyddiad a chwaraeon (hefyd ar y gwaelod)<br>• **cefndir lliw** gwyrdd i'r grid o Wicipedia + **cefndir lliw** i'r medalau<br>• **cefndir** llwyd i'r blwch 'a siom' gydag amlinell goch<br>• **lluniau –** tri llun lliw o'r athletwyr<br>• **blychau** – gyda llun Aled Sion Davies, enwau'r athletwyr, dau flwch ar y gwaelod<br>• **print trwm** – yn y teitlau<br>• **prif lythrennau** + trwm + lliw coch – y teitl yn y blwch ar y gwaelod – CAERDYDD 2026?<br>**print** gwyn – chwaraeon ar y brig<br>• **tabl / grid gwybodaeth / siart**<br>• **elipsau / ataliaith -** ...siom...<br>• **dolen / linc** | • **nodi blynyddoedd / dyddiadau** e.e. 2026, 12 mlynedd<br>• **enwi llefydd** e.e. Caerdydd, Castell-nedd, Alban, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Shetland<br>• **teitlau** e.e. Tîm Cymru, S4C, BBC, Gemau'r Gymanwlad, Team England, Hen Wlad Fy Nhadau, Velodrome<br>• **enwau pobl** e.e. Georgia Davies, Daniel Jervis, Adam Gemili, Elinor Barker, Gary Lineker, Clare Balding, Elinor Barker, Erraid Davies<br>• **niferoedd / ystadegau** e.e. 100 metr, 50 metr, 1500m, 12 mlynedd, 18 oed, 13 oed<br>• **cyflythrennu** e.e. cynnwrf yn y cnawd<br>• **rhestru** e.e. gymnasteg, nofio, jiwdo ac ati<br>• **dywediadau/idiomau** e.e. llonni calon rhywun, codi oddi ar eu penolau, yn corddi rhywun, wrth fy modd<br>• **ansoddeiriau** e.e. yn arw, hir, cymaint, aur, arian, efydd, yn fwy 'glam', yn hynod falch, hurt, rhyfeddol<br>• **amodol/ dymuniad** e.e. ddylai fod gen i fwy o bres bryd hynny, mi fyswn i wedi bod wrth fy modd...<br>• **ebychnod** e.e. ...yn bwysicach! gwahaniaeth rhwng aur ac arian hefyd! ....rhoi cynnig ar rai o'r campau! Mi geith o fedal aur cyn bo hir, yn bendant! 13 oed! Rhyfeddol!<br>• defnydd o'r Saesneg / Cymreigio geiriau (bratiaith) Saesneg – fwy 'glam', embaras<br>• cyfarch / sgwrsio gyda'r un sy'n darllen<br>• **brawddegau byr** – 13 oed. Rhyfeddol<br>• **defnydd o ddyfyn-nodau sengl 'newydd'** i gyfleu coegni'r awdur<br><br>**y cyflwyniad**<br>• **dwy golofn**<br>• **paragraffau byrion**<br>• **baner Cymru -** y Ddraig Goch<br>• **enw'r awdures,** Bethan Gwanas, ar frig y dudalen<br>• **teitl** yr erthygl – Mwynhau'r gemau ond biti na fuasem wedi cael clywed ein hanthem, yn de?<br>• **dyddiad yr erthygl** – Awst 6, 2014 – dyddiad yr erthygl, gydag enw'r papur newydd Herald Gymraeg / Dail Post<br>• **cefndir glas** i'r blwch/llinell ar y brig, a chefndir llwyd i enw'r papur newydd ar y gwaelod<br>• **lluniau –** 3 llun lliw (dau athletwr – gyda'u henwau; un yn dangos ei medal a'r llall ei gamp - nofio + Bethan Gwanas, awdures yr erthygl) + baner Cymru<br>• **print trwm** – y teitl + isteitl + y dyfyniad<br>• **print lliw trwm** – coch – y dyfyniad ' Y pechod mwya oedd...'<br>• **prif lythrennau** – DAILY POST<br>• **elipsau / ataliaith** – Ond os daw'r Gemau yn ôl i Gaerdydd ... |



© WJEC CBAC Cyf.

Dyfernir **4 marc** am ansawdd cyffredinol y drafodaeth yn cynnwys mynegi barn a thrafod y ddau ddarn ar y cyd (e.e. rhesymau pam mae un o’r darnau / ffurfiau yn fwy effeithiol na’r llall).

**Ansawdd y drafodaeth (mynegi barn a thrafod y ddau ddarn ar y cyd)** (hyd at **4 marc** ar draws y ddau ddarn)
**4 marc** – mynegi barn a chyd-drafod yn aeddfed
**3 marc** – mynegi barn a chyd-drafod yn dda
**2 farc** – mynegi barn a chyd-drafod yn eithaf da
**1 marc** – mynegi barn a chyd-drafod yn fras

**Cyfanswm marciau cwestiwn 3 = 20 marc**

### Dyfarnu marciau cwestiwn 3:

### Rhoddir 2 farc am bob pwynt:

- **½ marc am enwi nodwedd. Rhaid dyfynnu neu enghreifftio’n glir er mwyn ennill y marc enwi nodwedd.**
- **O fewn 1 ½ marc – ½ marc am ddyfynnu/ enghreifftio ac yna hyd at 1 marc am drafod effeithiolrwydd neu bwrpas neu resymu.**
- **Wrth sôn am fwriad yr awdur/ pwy yw’r darllenwyr, mae’n anodd enghreifftio neu ddyfynnu felly rhoddir hyd at 1 ½ marc am esbonio’r pwrpas.**



© WJEC CBAC Cyf.

**Iaith a Mynegiant Adran A = 10 marc**
**Marciau yn ôl y disgrifiadau canlynol.**

| IAITH A MYNEGIANT<br>10 | Marc<br>10 |
|---|---|
| • iaith gyfoethog a chyhyrog<br>• defnyddio ystod eang o gystrawennau<br>• gafael sicr iawn ar sillafu, treigladau, atalnodi a pharagraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eang yn hyderus<br>• defnydd hyderus ac effeithiol o ffurf | 9-10 |
| • iaith gyfoethog<br>• defnyddio ystod lawn o gystrawennau<br>• arddangos gafael gadarn ar sillafu, treigladau, atalnodi a pharagraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eang<br>• defnydd hyderus o ffurf | 7-8 |
| • adnoddau iaith da<br>• defnyddio ystod dda o gystrawennau<br>• gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eithaf eang<br>• dealltwriaeth dda o ffurf | 6 |
| • adnoddau iaith pur dda<br>• arddangos gafael dda ar gystrawen<br>• arddangos gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael dda ar eirfa<br>• adnabyddiaeth eithaf da o ffurf | 4-5 |
| • adnoddau iaith lled foddhaol<br>• gafael weddol dda ar gystrawen<br>• gafael weddol dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael eithaf da ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf | 2-3 |
| • peth gafael ar gystrawen<br>• dangos y gallu i sillafu, treiglo, atalnodi a pharagraffu<br>• defnyddio rhai terfyniadau berfau'n gywir<br>• arddangos peth gafael ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth fras o ffurf | 0-1 |

**Cyfanswm marciau Adran A = 50 (cynnwys: 40 + Iaith a Mynegiant:10)**



© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B**

**4.** Gweler y disgrifiadau canlynol ar gyfer asesu Cynnwys ac Iaith a Mynegiant
Ffurf cwbl anghywir: haneru marc Iaith a Mynegiant
Camddehongli'r testun: haneru marc y cynnwys
½ i ¾ tudalen – ddim yn waith cyflawn o ran y cynnwys (gweler disgrifiadau isod).
Dyddiadur – un diwrnod yn lle dau – gostwng un band marcio

***Marciau yn ôl y disgrifiadau canlynol:***

| **Cyfanswm Marciau** | **Marc 20** | **CREADIGOL 20** | **FFEITHIOL 20** | **IAITH A MYNEGIANT 20** |
|---|---|---|---|---|
| 36-40 | 18-20 | • cyfanwaith creadigol aeddfed a threiddgar<br>• arddull afaelgar<br>• adeiladwaith sicr | • cyflwyno gwybodaeth yn gyflawn<br>• cyflwyno ffeithiau perthnasol yn gryno a chrefftus<br>• cyfanwaith cydlynus<br>• arddull effeithiol iawn ac addas i'r pwrpas | • iaith gyfoethog a chyhyrog<br>• defnyddio ystod eang o gystrawennau<br>• gafael sicr iawn ar sillafu, treigladau, atalnodi a pharagraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eang yn hyderus<br>• defnydd hyderus ac effeithiol o ffurf |
| 28-35 | 14-17 | • gwaith â dyfnder iddo<br>• arddull aeddfed<br>• adeiladwaith sicr | • cyflwyno gwybodaeth fanwl<br>• cyflwyno ffeithiau perthnasol yn effeithiol a chryno<br>• gwaith cydlynus<br>• arddull effeithiol ac addas i'r pwrpas | • iaith gyfoethog<br>• defnyddio ystod lawn o gystrawennau<br>• arddangos gafael gadarn ar sillafu, treigladau, atalnodi a pharagraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eang<br>• defnydd hyderus o ffurf |
| 22-27 | 11-13 | • gwaith ag apêl iddo<br>• arddull ddifyr<br>• gwaith trefnus | • cyflwyno gwybodaeth briodol yn eithaf manwl<br>• cyflwyno ffeithiau perthnasol<br>• gwaith trefnus<br>• arddull dda ac addas i'r pwrpas | • adnoddau iaith da<br>• defnyddio ystod dda o gystrawennau<br>• gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eithaf eang<br>• dealltwriaeth dda o ffurf |
| 14-21 | 7-10 | • gwaith eithaf diddorol<br>• ymwybyddiaeth o rai elfennau i greu effaith<br>• gwaith pur drefnus | • cyflwyno gwybodaeth berthnasol a digonol<br>• gwaith pur drefnus<br>• cyflwyno'r wybodaeth yn eglur ac addas i'r pwrpas | • adnoddau iaith pur dda<br>• arddangos gafael dda ar gystrawen<br>• arddangos gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael dda ar eirfa<br>• adnabyddiaeth eithaf da o ffurf |



© WJEC CBAC Cyf.

| Cyfanswm Marciau | Marc 20 | CREADIGOL 20 | FFEITHIOL 20 | IAITH A MYNEGIANT 20 |
|---|---|---|---|---|
| 8-13 | 4-6 | • gwaith ag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• peth ymdrech i ddefnyddio arddull ddiddorol<br>• ymdrech at fod yn drefnus | • cyflwyno ffeithiau digonol<br>• ymdrech i fod yn drefnus<br>• ymdrech i gyflwyno'r wybodaeth yn eglur | • adnoddau iaith lled foddhaol<br>• gafael weddol dda ar gystrawen<br>• gafael weddol dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael eithaf da ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf |
| 0-7 | 0-3 | • ymdrech at waith diddorol<br>• ymdrech at waith cyflawn | • cyflwyno peth gwybodaeth<br>• ymgais at waith cyflawn ac i gyflwyno'n eglur | • peth gafael ar gystrawen<br>• dangos y gallu i sillafu, treiglo, atalnodi a pharagraffu<br>• defnyddio rhai terfyniadau berfau'n gywir<br>• arddangos peth gafael ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth fras o ffurf |

**Cyfanswm marciau cwestiwn 4 = 40 marc (Cynnwys: 20 + Iaith: 20)**



© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN C**

**5. Defnyddio iaith**

Rhoddir 1 marc am bob cywiriad – ½ **marc** am adnabod gwall a ½ **marc** am gywiro'r gwall.

**Sir Gar > Sir Gâr** – wedi ei gywiro fel enghraifft yn unig.

| **Eisteddfod Sir Gâr 2014** |
|---|
| Yr Eisteddfod Genedlaethol yw'r ŵyl bwysicaf yng Nghymru a chynhelir hi'n flynyddol yn ystod wythnos gyntaf mis Awst. |
| Mae plant a phobl o bob oed yn cystadlu neu'n cymryd rhan ynddi. Daw llawer o bobl i grwydro o gwmpas y maes ac i fwynhau eu hunain. |
| Yn dilyn wythnos lwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gaerfyrddin, ceir rhestr o'r holl enillwyr ar y dudalen hon gan gynnwys enillwyr llwyfan ac enillwyr cyfansoddi. |
| Llongyfarchiadau mawr i'r enillwyr i gyd. |
| Os oes gennych ddiddordeb mewn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn ym Meifod, gellir prynu'r rhestr testunau ar-lein neu mewn siopau ar hyd a lled y wlad. |

**Cyfanswm marciau cwestiwn 5 = 10**

**Gwallau:**

1. **yn Cymru > yng Nghymru** (treiglad trwynol) Rhaid defnyddio prif lythyren.
2. **chynhelid > chynhelir** (amser y ferf amhersonol)
3. **ynddo > ynddi** (terfyniad anghywir yr arddodiad; angen y terfyniad benywaidd gan fod y gair gŵyl yn fenywaidd)
4. **fobl > bobl** (treiglad anghywir)
5. **ei > eu** (unigol/lluosog y rhagenw)
6. **llwyddianus > llwyddiannus** (dyblu n)
7. **cyfansoddu > cyfansoddi** (gwall sillafu u / i)
8. **i gyd o > i'r enillwyr i gyd / i'r holl enillwyr / i bob un o'r enillwyr** (idiom Saesneg)
9. **yn siopau > mewn siopau** (arddodiad anghywir)
10. **yr wlad > y wlad** (ffurf anghywir y fannod)



© WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd  CF5 2YX
Ffôn:  029 2026 5000
Ffacs:  029 2057 5994
E-bost:  arholiadau@cbac.co.uk
gwefan:  www.cbac.co.uk

ⓗ WJEC CBAC Cyf.